ASESIAD A CHYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD AR Y CYD GRŴP SWYDDOGION TECHNEGOL A'R FFORWM AELODAU

Nodiadau'r cyfarfod ar y cyd dydd Mawrth 18 Hydref 2005, am 10.30am yn Siambr y Cyngor, Canolfan Ddinesig Penllergaer.

Yn bresennol

Y Cynghorydd P Palmer (C)	Cyngor Sir Caerfyrddin
Y Cynghorydd P Lloyd	CBS Castell-nedd Port Talbot
Y Cynghorydd D Lewis	CBS Castell-nedd Port Talbot
Y Cynghorydd A Robinson	Dinas a Sir Abertawe
Y Cynghorydd B Hall	Cyngor Sir Penfro
Y Cynghorydd R R Hayes	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro

Swyddogion

Geoff White	CBS Castell-nedd Port Talbot
Ceri Morris	CBS Castell-nedd Port Talbot
Howell Beaton	CBS Castell-nedd Port Talbot
Huw Jenkins	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Steve Bool	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Neil Bateman	Cyngor Sir Caerfyrddin
Philip Williams	Cyngor Sir Caerfyrddin
Hugh Towns	Cyngor Sir Caerfyrddin
Ruth Henderson	Dinas a Sir Abertawe
Roy Probert	Dinas a Sir Abertawe
Bryan Graham	Dinas a Sir Abertawe
Carol A Williams	Cyngor Sir Penfro / Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Dave Harries	Cyngor Sir Penfro
Graham Dorrington	Cyngor Sir Ceredigion
Sue Martin	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Audrey Evans	Asiantaeth yr Amgylchedd (D-O Cymru)
Miranda Lewis	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Rhiannon Jones	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Karen Maddock-Jones	CCGC
Julian Smith	Siambr Fasnach Gorllewin Cymru
Philip Marks	Cylch
Leanne Kyte	WDA (Rhanbarth y Gorllewin)
Howard French	WDA (Rhanbarth y Gorllewin)
Emyr John	WDA (Rhanbarth y Gorllewin)
Kevin Parr	RPS
Rondalyn Northam	RPS

1. **Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd D C Evans	Cyngor Sir Caerfyrddin
Y Cynghorydd P A Hacking	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Y Cynghorydd K Evans	Cyngor Sir Ceredigion
Y Cynghorydd R G Harris	Cyngor Sir Ceredigion
Ruth Brown	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Rob Lewis	WRAP

2. **Cofnodion cyfarfod y Grŵp Technegol 17 Awst 2005** – Wedi'u nodi.

Trafodwyd Eitem 5 nesaf.

5. Ymchwil Mapio GIS: Lledaenu

- Cyflwyniad gan Ymgynghorwyr: RPS Planning, Transport and Environment.

Rhoddodd SM amlinelliad bras o wreiddiau'r ymchwil gan gydnabod iddi fod yn beilot yn Ne-orllewin Cymru. Roedd LlCC yn eu tro wedi penderfynu cyllido parhau â'r ymchwil gan gontractio ymgynghorwyr (*RPS Planning, Transport and Environment*) i wneud y gwaith 'ar ran y tri rhanbarth er mwyn cyflawni ymagwedd gyson ledled Cymru'. Pwysleisiodd SM mai ymchwil annibynnol oedd y gwaith ac nad oedd yn bolisi LlCC.

Rhoddodd KP a RN gyflwyniad ar Ymchwil Mapio GIS. Dosbarthwyd copi o'r cyflwyniad a Chrynodeb Gweithredol ac felly nid yw'n cael ei ailadrodd yma.

Pwysleisiwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r ymchwil yn bennaf yn sefydlu cronfa ddata o wybodaeth GIS gynhwysfawr i wella'r broses o lunio penderfyniadau ynghylch lleoli cyfleusterau gwastraff rhanbarthol;
- Cynhyrchwyd dau fap ar gyfer pob rhanbarth, un yn nodi canlyniadau ar gyfer cyfleusterau awyr agored, a'r llall ar gyfer cyfleusterau mewn adeilad;
- Lle nad oedd y wybodaeth / data yn gynhwysfawr ac yn gyson ar draws Cymru, ymgorfforwyd y data fel haenen wybodaeth yn hytrach na haenen meini prawf;
- Gellir cyfiawnhau'r pwysiadau a roddwyd i'r meini prawf yn gadarn ac fe'u cytunwyd drwy'r Grŵp Llywio;
- Mae'r system yn gallu gwahanu'r haenau amrywiol;
- Bydd angen darparu hyfforddiant i unigolion allweddol wrth osod a defnyddio'r system. Mae'n hanfodol deall sut mae'r system yn gweithio a sut gellir ei defnyddio;
- Bydd angen cytuno ar raglen hyfforddi gyda LlCC; a
- Mae'r system yn caniatáu diweddaru'r data ynghyd â newidiadau polisi. Fodd bynnag, bydd yn rhaid rheoli'r mynediad i'r data'n ofalus iawn.

Cafwyd trafodaeth a nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Pwysiadau'r meini prawf yw'r pwynt hanfodol – mae'n rhaid medru cyfiawnhau hynny;
- Mae'r Parciau Cenedlaethol wedi'u heithrio o'r cyfleusterau rhanbarthol Mewn Adeiladau ond nid o'r cyfleusterau Awyr Agored;
- Dosbarthu Offeryn / Adroddiad a Mapiau GIS – bydd pob un o'r Cydlynwyr Rhanbarthol yn derbyn copi o'r Offeryn GIS Cymru gyfan a bydd pob awdurdod lleol yn derbyn copi o'r Adroddiad a'r Mapiau ynghyd â CD/DVD darllen yn unig;
- Dyddiad posib ar gyfer hyfforddiant cychwynnol Cydlynwyr: dydd Gwener 4 Tachwedd;
- Mae angen cytuno ar brotocol ynglŷn â sut i ddiweddaru'r system. **Gweithredu**: SM i osod hynny ar agenda'r cyfarfod cydgysylltu Cymru gyfan nesaf;
- Pwysigrwydd LlCC yn gweithredu'n briodol fel 'ceidwad' yr ymchwil. Mae rheoli'r data yn holl bwysig ac mae'n rhaid i LCC weithredu fel yr awdurdod terfynol; a
- Dylid cytuno ar ddatganiad clir o gyfrifoldebau LLCC a'r cydlynwyr rhanbarthol o'r cychwyn, efallai ar ffurf protocol.

Gadawodd Kevin Parr a Rondalyn Northam y cyfarfod.

3. Nodiadau cyfarfod y Fforwm 9 Medi 2005

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

Eitem 2: *Ymweliad Safle â chyfleuster MBT* – dywedodd CM bod dau ddyddiad dros dro (26 Hydref a 9 Tachwedd) wedi'u neilltuo ar gyfer ymweliad y Grŵp Gwastraff Rhanbarthol â 'Chanolfan Adfer ac Ynni'(MREC) Castell-nedd Port Talbot. Nodwyd y byddai ymweliad safle / taith o gwmpas yr MREC yn para tua awr a bydd y niferoedd ar y dydd yn cael ei gyfyngu i 30.

Cytunwyd y byddai'r ymweliad yn digwydd am 11.00am dydd Mercher 9 Tachwedd. **Gweithredu**: CM i gadarnhau.

Eitem 9: *'Rhesymoli Gweithio Rhanbarthol'* – dywedodd CM y byddai'r papurau o gyfarfod CLlLC yn cael eu dosbarthu i'r GTRh a FfA pan gânt eu derbyn. **Gweithredu**: CM.

4. <u>Adroddiad ar Wastraff Peryglus: y Diweddaraf am y Cadarnhau</u>

Cyfeiriodd y swyddogion at y canlynol ynglŷn â chadarnhau'r 'Adroddiad ar Wastraff Peryglus:

CBS Castell-nedd Port Talbot:	Adroddiad i Fwrdd y Cabinet yn gynnar ym mis Tachwedd.
Ceredigion CC:	Adroddiad i'r Pwyllgor yn gynnar ym mis Tachwedd.
Dinas a Sir Abertawe:	Adroddiad i'r Pwyllgor 17 Tachwedd.
CS Caerfyrddin:	I'w gadarnhau.
CBS Pen-y-bont ar Ogwr:	I'w gadarnhau.
CS Penfro:	I'w gadarnhau.
APC Arfordir Sir Benfro:	I'w gadarnhau.
APC Bannau Brycheiniog:	I'w gadarnhau.

6. <u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</u> – I'w drefnu.

7. <u>Unrhyw fater arall</u> – Dim yn codi.